Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

# Cylchlythyr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) MEDI 2025

## Manylion Cyswllt yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)

Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)   Ffôn 0141 726 2397  Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Ni fydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cau nawr ym mis Ionawr 2026, fel y nodwyd yn flaenorol. Bydd WIBSS yn cynghori Buddiolwyr ar y dyddiad cau newydd pan fydd un wedi'i gadarnhau.

## Canllaw Budd-daliadau

Isod, mae canllaw budd-daliadau syml a allai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol os ydych chi'n ansicr ynglŷn â'r hyn y gallech fod yn gymwys i'w hawlio. Mae'r tîm lles yma i'ch cefnogi gydag unrhyw hawliadau ar gyfer budd-daliadau tan i ni gau ym mis Ionawr 2026.

## Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol wedi bod ar gael ym mhob rhan o'r DU ers mis Rhagfyr 2018.

Yn y pen draw, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cysylltu â phob hawlydd budd-daliadau etifeddol sydd ar ôl, ac yn dweud wrthynt bod yn rhaid iddynt hawlio Credyd Cynhwysol er mwyn parhau i dderbyn cymorth sy'n seiliedig ar brawf modd.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau nawr yn bwriadu cysylltu â'r holl hawlwyr budd-daliadau etifeddol sydd ar ôl erbyn mis Rhagfyr 2025, a symud pobl i dderbyn Credyd Cynhwysol a chau budd-daliadau etifeddol erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

## CYSYLLTU

Cysylltwch â WIBSS ar **02921 500900** neu anfonwch e-bost at **wibss@wales.nhs.uk**

Os na chaiff eich galwad ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt, ac fe wnawn ni eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer yr Adran Seicoleg a Lles, anfonwch e-bost at: **wibss.wellbeingservice @wales.nhs.uk** .

**Cyswllt Diweddar**

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.
Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n lythyr gan WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02921 500900**.



Mae canllaw cam wrth gam ar gael ar wefan Gov.uk, gweler y ddolen yma: https://www.gov.uk/how-to-claim-universal-credit

Mae'r ddolen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol: https://www.gov.uk/universal-credit

## Budd-daliadau Anabledd

Isod, mae gwahanol fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael os oes gennych chi anabledd neu gyflwr iechyd. Nid yw'r budd-daliadau hyn yn destun prawf modd.

### Lwfans Gweini

Mae Lwfans Gweini yn helpu gyda chostau ychwanegol os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n ddigon difrifol fel bod angen rhywun arnoch i helpu i ofalu amdanoch.

Gallwch gael Lwfans Gweini os ydych chi wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a bod y canlynol yn berthnasol:

- bod gennych anabledd corfforol (gan gynnwys anabledd synhwyraidd, er enghraifft dallineb), anabledd meddyliol (gan gynnwys anawsterau dysgu), neu gyflwr iechyd
- bod eich anabledd neu gyflwr iechyd yn ddigon difrifol i chi fod angen help i ofalu amdanoch chi'ch hun neu gael rhywun i'ch goruchwylio, er eich diogelwch chi eich hun neu ddiogelwch rhywun arall
- eich bod chi wedi bod angen yr help hwnnw am o leiaf 6 mis

I gael rhagor o wybodaeth am sut i hawlio neu am gyfraddau Lwfans Gweini, cliciwch ar y ddolen Gov.uk: https://www.gov.uk/attendance-allowance/eligibility

### Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar gyfer plant

Mae lles WIBSS yma i gefnogi'r teulu gydag unrhyw geisiadau am fudd-daliadau ac felly, roedden ni eisiau rhoi gwybodaeth i chi am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer Plant.

Gall Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar gyfer plant helpu gyda'r costau ychwanegol o ofalu am blentyn sydd:

- o dan 16 oed
- yn cael anhawster cerdded neu sydd angen llawer mwy o ofal na phlentyn o'r un oedran sydd heb anabledd

Am ragor o wybodaeth am gymhwysedd a chyfraddau DLA, gweler y ddolen GOV.uk: https://www.gov.uk/disability-living-allowance-children/eligibility

### Taliad Annibyniaeth Personol

Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) os yw'r canlynol i gyd yn berthnasol i chi:

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

- rydych chi'n 16 neu'n hŷn
- mae gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu anabledd hirdymor
- rydych chi'n ei chael yn anodd gwneud rhai tasgau bob dydd neu symud o gwmpas
- rydych chi'n disgwyl i'r anawsterau bara am o leiaf 12 mis o'r adeg y gwnaethant ddechrau.

Rhaid i chi hefyd fod o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth os nad ydych chi wedi derbyn PIP o'r blaen.

Mae 2 ran i PIP:

- yr elfen bywyd bob dydd - os oes angen help arnoch gyda thasgau bob dydd
- yr elfen symudedd - os oes angen help arnoch i symud o gwmpas

I gael gwybod faint y gallech fod yn gymwys i'w gael ac i gael unrhyw wybodaeth bellach am PIP, ewch i'r ddolen ar wefan gov.uk https://www.gov.uk/pip

Gall tîm Hawliau Lles WIBSS gefnogi Buddiolwyr a'u teuluoedd i hawlio'r budd-daliadau uchod.

## Sgamiau

Mae WIBSS wedi sôn mewn cylchlythyrau blaenorol am fod yn ofalus o sgamwyr a thwyllwyr. Roedden ni eisiau rhoi gwybod i chi am sgam diweddar gyda'r taliad tanwydd gaeaf. Mae'r taliad tanwydd gaeaf yn daliad **awtomatig,** ac nid oes angen i chi wneud unrhyw beth i dderbyn hwn. Mae unigolion wedi derbyn negeseuon testun ac e-byst yn portreadu eu hunain fel pe baent o GOV.uk, yn gofyn i chi ddilyn y ddolen i hawlio, ac yn gofyn am fanylion eich banc. **Os nad ydych chi'n siŵr a yw rhywbeth yn sgam, peidiwch â chlicio ar unrhyw ddolenni.**

Efallai yr hoffech chi gofrestru ar gyfer cylchlythyr rhybuddion Sgam Which.  Gallwch gofrestru am ddim.

Gall y rhybuddion sgam eich helpu chi gyda'r canlynol:

- I fod ar flaen y gad o ran y sgamiau diweddaraf
- I ganfod sgamiau ac amddiffyn eich hun
- I gymryd camau os ydych chi wedi cael eich twyllo
- I ddeall sut mae sgamiau'n gweithio

## Cymorth Hawliau Lles

Mae'r tîm Hawliau Lles yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol ac ymroddedig. Gallwn eich helpu gyda nifer o faterion, gan gynnwys materion budd-daliadau, cynyddu incwm, rheoli arian, eiriolaeth a chymorth cyffredinol. Mae'r gwasanaeth ar gael i chi ac aelodau o'ch teulu.

Gellir cynnal apwyntiadau drwy ymweliadau cartref, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy apwyntiadau ar-lein (Teams) Gallwch gysylltu â'r tîm ar y rhif uchod.

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

## Y Tîm Seicoleg a Lles

Mae Gwasanaeth Seicoleg a Lles Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn parhau i gefnogi aelodau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a'u teuluoedd estynedig, ac mae'r gwasanaeth yn dal i allu derbyn atgyfeiriadau newydd.